# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Video Conference via Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 24 Tachwedd 2020

Amser: 09.00 - 09.09

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Rebecca Evans AS<br>Darren Millar AS<br>Siân Gwenllian AS<br>David J Rowlands AS |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Bethan Garwood, Dirprwy Glerc<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Cafwyd ymddiheuriadau gan Caroline Jones; roedd David Rowlands yn bresennol yn ei lle.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod yr wythnos diwethaf i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y ddau newid i fusnes yr wythnos hon – ychwanegu datganiad am y wybodaeth ddiweddaraf am y mesurau arbennig ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a thrafod Rheoliadau Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (Diwygio Atodlen 1) 2020 yn ddiweddarach yn ystod y dydd.

*Newid yn y Siambr*

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwr Reolwyr y dylai'r Aelodau hynny sy'n eistedd wrth ymyl y seddi sy'n newid (meinciau'r Ceidwadwyr a'r llywodraeth ar hyn o bryd) hefyd adael y Siambr yn ystod y newid, a dychwelyd dim ond ar ôl i'r gloch ganu, er mwyn rhoi digon o le i'r rhai sy'n rheoli'r newid.

*Zoom*

Gofynnodd y Llywydd i'r Rheolwyr Busnes atgoffa'r Aelodau hynny sy'n ymuno â'r Cyfarfod Llawn yn rhithwir wneud hynny mewn da bryd, a hynny oherwydd bod Zoom yn diweddaru ac mae'n bosibl y bydd angen iddynt roi cyfrinair.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newidiadau a ganlyn:

**Dydd Mawrth 8 Rhagfyr 2020**

- Datganiad gan Ddirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth: Y wybodaeth ddiweddaraf am Dasglu'r Cymoedd (45munud)
- Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol (15 munud)
- Dadl: Adolygiad Blynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2019-20 (60 munud)

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y ddadl ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar 15 Rhagfyr a'r cynnig i newid y dyddiad cau i bwyllgorau gyflwyno adroddiad arno i 11 Rhagfyr.

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnwys yr eitemau busnes a ganlyn yn yr amserlen:

**Dydd Mercher 2 Rhagfyr 2020 –**

- Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad – Adroddiad 02-20 (15 munud)

**Dydd Mercher 16 Rhagfyr 2020 –**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Cadernid Meddwl: ddwy flynedd yn ddiweddarach (60 munud)

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar effaith y pandemig ar y Gymraeg (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2020

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y bydd angen i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y Gorchymyn erbyn dydd Iau 3 Rhagfyr.

## 5 Busnes y Senedd

### 5.1 Trefniadau cyflwyno yn ystod toriad Nadolig 2020

Cadarnhaodd y Pwyllgor Busnes y trefniadau ar gyfer gosod dogfennau yn ystod cyfnod y Nadolig, gan gynnwys cytuno ar y cynnig i glercod ar ddyletswydd fod ar alwad i gyhoeddi unrhyw ddogfennau a osodir rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

Cadarnhaodd y Pwyllgor hefyd y trefniadau ar gyfer cyflwyno busnes y Cyfarfod Llawn yn ystod wythnos gyntaf y tymor a'r trefniadau ar gyfer cyflwyno gwelliannau i filiau.

Cytunodd y Pwyllgor hefyd ar y trefniadau ar gyfer cyflwyno Cwestiynau Ysgrifenedig.

Diolchodd y Trefnydd i'r Comisiwn am roi trefniadau ar waith i ganiatáu i'r clercod ar ddyletswydd ymdrin ag unrhyw faterion yn ymwneud â Brexit neu Covid yn ystod y cyfnod y bydd y Senedd ar gau.

# 6 Pwyllgorau

## 6.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar amserlen ar gyfer cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ddydd Llun, 30 Tachwedd.

## 6.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad – tynnwyd yn ôl